# Gwasanaethau rhaglenni ar-alw: Arweiniad ar gyfer darparwyr ODPS ar fesurau i ddiogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol

Datganiad

---

Dyddiad Cyhoeddi: 10 Rhagfyr 2021

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg 1

2. Cyflwyniad 3

3. Ymatebion i'r ymgynghoriad a chasgliadau Ofcom 5

4. Mân newidiadau 12

5. Asesiad o Effaith 13

# 1. Trosolwg

**Arweiniad – yn gryno**

Yn dilyn ymgynghoriad, mae Ofcom yn cyhoeddi arweiniad newydd ar gyfer darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alw ("ODPS") ar eu cyfrifoldebau o ran diogelu gwylwyr rhag deunydd niweidiol o dan Adran 368E Deddf Cyfathrebu 2003. Dylid darllen yr arweiniad newydd ochr yn ochr â Rheolau Statudol Ofcom a'i Harweiniad Nad yw'n Rhwymol ar gyfer Darparwyr Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alw (ODPS) sy'n nodi'n llawn y gofynion statudol sy'n berthnasol i ODPS ac arweiniad sy'n ymwneud â materion gweinyddol yn ogystal â nawdd a lleoli cynnyrch. Nid yw arweiniad Ofcom yn y meysydd hyn wedi cael ei ddiweddaru.

O dan y fframwaith rheoleiddio diwygiedig, a ddaeth i rym ar 1 Tachwedd 2020, mae'n ofynnol i ddarparwyr ODPS gymryd camau priodol a chymesur i ddiogelu pobl dan 18 oed rhag **"deunydd dan gyfyngiadau arbennig"**. Mae hyn yn cynnwys:

i) deunydd sydd â thystysgrif R18[1] neu sy'n debygol o dderbyn y fath dystysgrif; ac

ii) deunydd arall a allai amharu ar ddatblygiad corfforol, meddyliol neu foesol pobl ifanc o dan 18 oed.

Mae arweiniad newydd Ofcom yn nodi mesurau a allai fod yn briodol ar gyfer diogelu'r rhai dan 18 oed. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cymhwyso mesurau dilysu oedran cadarn ar gyfer deunydd pornograffig; ac
- ar gyfer deunydd arall a allai amharu ar ddatblygiad corfforol, meddyliol neu foesol pobl dan 18 oed, rhoi mesurau ar waith megis graddau oedran, rhybuddion am gynnwys a mesurau rheoli i rieni sy'n gymesur i niwed posib y deunydd perthnasol i bobl dan 18 oed.

Mae'r arweiniad newydd hefyd wedi'u ddylunio i helpu darparwyr i gydymffurfio â'r gofynion i sicrhau nad yw eu gwasanaethau'n cynnwys unrhyw:

- ddeunydd sy'n debygol o annog trais neu gasineb yn erbyn grwpiau penodol; a
- **"deunydd gwaharddedig"**. Mae hyn bellach yn cynnwys deunydd a fyddai'n cael ei ystyried yn drosedd o dan gyfreithiau sy'n ymwneud â therfysgaeth; deunydd cam-drin plant yn rhywiol; a hiliaeth a senoffobia; yn ogystal â gwaith fideo y gwrthodwyd dosbarthiad iddo gan y BBFC a deunydd y byddai dosbarthiad yn cael ei wrthod iddo gan y BBFC pe bai'n cael ei gynnwys mewn gwaith fideo.

Dylid nodi, er bod yr arweiniad newydd wedi'i ddylunio i gynorthwyo darparwyr gwasanaethau i ddeall y newidiadau i'r gofynion rheoleiddio a'r ffordd orau o gydymffurfio, bod awgrymiadau a wneir gan Ofcom yn ddarluniadol yn hytrach na rhagnodol. Mae'r arweiniad yn rhoi hyblygrwydd

[1] Mae Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain ("BBFC") yn nodi: "Mae'r categori R18 yn ddosbarthiad arbennig sydd o dan gyfyngiadau cyfreithiol yn bennaf ar gyfer gwaith penodol o ddeunydd rhyw neu ffetis cryf cydsyniol sy'n ymwneud ag oedolion. Dim ond i oedolion mewn sinemâu trwyddedig arbennig y gellir dangos ffilmiau, a gellir darparu gwaith fideo dim ond i oedolion mewn siopau rhyw trwyddedig. Ni ellir darparu gwaith fideo R18 trwy'r post".

i ddarparwyr ODPS o ran sut maent yn diogelu eu defnyddwyr, gan adlewyrchu ehangder ac amrywiaeth y sector a phwysigrwydd arloesi technolegol.

Ymgynghorodd Ofcom ar ei arweiniad arfaethedig ("yr arweiniad drafft") ar gyfer darparwyr ODPS mewn perthynas â'r gofynion rheoleiddio uchod rhwng 20 Gorffennaf 2021 a 14 Medi 2021.

Nod yr arweiniad drafft oedd helpu darparwyr gwasanaethau i ddeall:

a) y gofynion rheoleiddio o dan y Fframwaith ODPS sy'n ymwneud â diogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol;
b) pa fathau o gynnwys a allai gael eu hystyried yn ddeunydd niweidiol;
c) mesurau a allai fod yn briodol ar gyfer diogelu defnyddwyr rhag deunydd dan gyfyngiadau arbennig; a'r
d) ffordd orau o weithredu'r mesurau hyn.

Derbyniwyd cyfanswm o chwe ymateb gan: BT; y BBC; S4C; y Samariaid; aelod o'r cyhoedd; ac, ar sail gyfrinachol, gan weithredwr llwyfan adnabyddiaeth ar-lein sy'n ymwneud â dilysu oedran. Rydym wedi ystyried pob ymateb yn ofalus wrth gwblhau ein harweiniad a chyhoeddi'r holl ymatebion nad ydynt yn gyfrinachol ar ein gwefan. Derbyniwyd ymatebion ar amrywiaeth o faterion ar draws y cwestiynau a ofynnwyd gennym yn yr arweiniad drafft. Rydym yn nodi'r rhain yn fanwl, ynghyd â'n casgliadau, yn Adran Tri y ddogfen hon.

Rydym wedi cyhoeddi ein harweiniad terfynol ochr yn ochr â'r datganiad hwn.

Gall darparwyr yrru e-bost i Ofcom yn vod@ofcom.org.uk os oes ganddynt unrhyw gwestiynau am yr arweiniad neu agweddau eraill ar reoleiddio ODPS. Ni allwn ddarparu cyngor cyfreithiol am wasanaethau unigol fodd bynnag, a chyfrifoldeb i bob darparwr o hyd yw sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau perthnasol.

# 2. Cyflwyniad

## Cefndir

2.1 Categori o wasanaeth fideo ar-alw a reoleiddir o dan Ran 4A Deddf Cyfathrebu 2003 ("y Ddeddf") yw gwasanaethau rhaglenni ar-alw ("ODPS”). Diwygiwyd Rhan 4A ar 1 Tachwedd 2020 i adlewyrchu'r diwygiadau a wnaed i fframwaith yr UE ar gyfer gwasanaethau ar-alw o dan Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweled 2018 (yr "AVMSD”)[2]. Mae'r AVMSD yn rheoli'r gwaith o gydgysylltu deddfwriaeth genedlaethol ar draws yr UE ar bob cyfrwng clyweled, darllediadau teledu traddodiadol a gwasanaethau ar-alw, ac mae bellach wedi'i ymestyn hefyd i lwyfannau rhannu fideo (VSPs)[3].

2.2 Mae fframwaith rheoleiddio AVMSD o dan Ran 4A y Ddeddf wedi'i gadw yng nghyfraith y DU ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, er bod y meini prawf ar gyfer sefydlu awdurdodaeth wedi'u diwygio i egluro pryd y bydd ODPS yn dod o dan awdurdodaeth y DU[4]. Yn y ddogfen hon rydym yn cyfeirio at y fframwaith rheoleiddio a nodir yn Rhan 4A y Ddeddf fel "y Fframwaith ODPS”. Mae Rheolau Statudol ac Arweiniad Nad yw'n Rhywmol Ofcom ar gyfer Darparwyr Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alw (ODPS) yn nodi'n llawn yr holl reolau sy'n berthnasol i ODPS a dylid eu darllen ar y cyd â'r arweiniad newydd sy'n ymwneud yn benodol â deunydd niweidiol ac yn darparu arweiniad ychwanegol ar gymhwyso a dehongli Rheolau 10, 11 a 12 yn unig.

## Y Fframwaith ODPS

2.3 Mae paragraffau 2.4 i 2.7 isod yn nodi rhai o nodweddion allweddol y Fframwaith ODPS sy'n berthnasol i ddiogelu gwylwyr rhag deunydd niweidiol.

2.4 **Mae'n ofynnol i ODPS sy'n dod o fewn y cwmpas hysbysu Ofcom.** Bydd angen i ddarparwyr gwasanaethau ystyried a yw'r gwasanaeth y maent yn ei ddarparu yn bodloni'r meini prawf cwmpas ac awdurdodaeth a nodir yn y Ddeddf. Os yw'n gwneud hynny, mae'n ofynnol iddynt gyflwyno hysbysiad ffurfiol o'u gwasanaeth i Ofcom. Mae Ofcom wedi cyhoeddi arweiniad i helpu darparwyr i asesu a yw eu gwasanaeth yn dod o fewn y cwmpas a bod angen ei hysbysu i ni[5]. Ar ein gwefan rydym wedi cyhoeddi rhestr o ddarparwyr ODPS sydd wedi hysbysu, a byddwn yn diweddaru hon wrth i wasanaethau newydd hysbysu[6].

2.5 **Mae'n rhaid i ODPS beidio â chynnwys:**

[2] Diwygiwyd Rhan 4A gan Reoliadau Cyfarwyddeb Gwasanaeth Cyfryngau Clyweled 2020 a ddaeth i rym ar 1 Tachwedd 2020.

[3] I gael rhagor o wybodaeth am reoleiddio VSP gweler: https://www.ofcom.org.uk/cymru/online-safety/information-for-industry/vsp-regulation/plan-and-approach

[4] Gweler: Y Rheoliadau Darlledu (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

[5] Bydd angen cyflwyno pob hysbysiad drwy ffurflen hysbysu sydd ar gael ar wefan Ofcom yn https://www.ofcom.org.uk/cymru/tv-radio-and-on-demand/information-for-industry/on-demand/notifying-a-service.

[6] Mae'r rhestr o ODPS sydd wedi hysbysu ar gael yma: https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0021/67710/list_of_regulated_video_on_demand_services.pdf.

- **deunydd sy'n debygol o annog trais neu gasineb[7]; neu**
- **ddeunydd gwaharddedig.** Diffinnir hyn fel deunydd:

a) y byddai'n drosedd i'w gyhoeddi, dosbarthu neu ledaenu o dan gyfreithiau sy'n ymwneud â therfysgaeth, deunydd cam-drin plant yn rhywiol ("CSAM"), a hiliaeth ac senoffobia

b) sydd â thystysgrif R18[8] neu sy'n debygol o dderbyn y fath dystysgrif; ac

c) y mae'n debygol y byddai tystysgrif yn cael ei gwrthod iddo gan Fwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain petai'n cael ei gynnwys mewn gwaith fideo.

Nod yr arweiniad yr ydym yn ei gyhoeddi heddiw yw cynorthwyo darparwyr gwasanaethau i benderfynu ar y mathau o ddeunydd a allai ddod o dan y diffiniadau hyn.

2.6 **Mae'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gymryd camau priodol i sicrhau na fydd deunydd sydd dan gyfyngiadau arbennig fel arfer yn cael ei weld na'i glywed gan bobl dan 18 oed.** Mae deunydd sydd dan gyfyngiadau arbennig yn cynnwys:

a) deunydd sydd â thystysgrif R18 neu sy'n debygol o dderbyn y fath dystysgrif; a

b) deunydd arall a allai amharu ar ddatblygiad corfforol, meddyliol neu foesol pobl ifanc o dan 18 oed.

Mae'r arweiniad yr ydym yn eu cyhoeddi heddiw wedi'i ddylunio i helpu darparwyr i ystyried beth yw deunydd sydd wedi'i gyfyngu'n arbennig, pa fesurau a allai fod yn briodol ac yn gymesur, a sut y gellid gweithredu'r mesurau hynny'n effeithiol. Nid yw'r arweiniad ar fesurau diogelu yn rhagnodol ond bwriedir iddo roi awgrymiadau i helpu i ddeall sut y gall darparwyr gwasanaethau gydymffurfio â'u rhwymedigaethau. Mewn rhai achosion, efallai y bydd ffyrdd eraill o weithredu mesur i gyflawni'r un diben. Pan gredwn fod defnyddwyr yn annhebygol o gael eu diogelu'n ddigonol heb ymagwedd benodol, rydym yn dweud hynny yn ein harweiniad.

2.7 Mae gweddill y ddogfen hon wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- yn Adran Tri rydym yn crynhoi'r materion allweddol a godwyd gan ymatebwyr ac ymatebion Ofcom iddynt, gan gynnwys newidiadau rydym wedi'u gwneud i'r ddogfen arweiniad derfynol;
- yn Adran Pedwar rydym yn cyfeirio'n gryno at rai mân ddiwygiadau a wnaed gennym i adlewyrchu ein harweiniad a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar lwyfannau rhannu fideos; ac
- yn Adran Pump, rydym yn disgrifio ein hasesiad o effaith o ran ein harweiniad newydd.

---

[7] O dan a. 368E(1) y Ddeddf mae'n rhaid i'r ODPS beidio â chynnwys deunydd sy'n debygol o annog trais neu gasineb yn erbyn grŵp o bersonau neu aelod o grŵp o bersonau, ar sail ar unrhyw un o'r seiliau y cyfeirir atynt yn Erthygl 21 Siarter Hawliau Sylfaenol yr Undeb Ewropeaidd ar 7 Rhagfyr 2000, fel y'i mabwysiadwyd yn Strasbourg ar 12 Rhagfyr 2007. Y seiliau hyn yw: rhyw, hil, lliw croen, tarddiad ethnig neu gymdeithasol, nodweddion genetig, iaith, crefydd neu gred, barn wleidyddol neu unrhyw farn arall, aelodaeth o leiafrif cenedlaethol, eiddo, genedigaeth, anabledd, oedran neu dueddfryd rhywiol.

[8] Gweler troednodyn 1.

# 3. Ymatebion i'r ymgynghoriad a chasgliadau Ofcom

3.1 Mae'r Adran hon yn crynhoi'r materion allweddol a godwyd gan ymatebwyr ac ymatebion Ofcom iddynt, gan gynnwys newidiadau rydym wedi'u gwneud i'r ddogfen arweiniad derfynol. Mae'r arweiniad terfynol wedi cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r datganiad hwn ar ein gwefan.

3.2 Gofynnodd ein dogfen ymgynghori bum cwestiwn, sydd wedi'u copïo'n llawn isod.

> **Cwestiwn 1:** A oes gennych unrhyw sylwadau ar arweiniad arfaethedig ynghylch is-adran 1 yn adran 368E y Ddeddf – deunydd sy'n debygol o annog trais neu gasineb?
>
> **Cwestiwn 2:** A oes gennych unrhyw sylwadau ar arweiniad arfaethedig ynghylch is-adrannau 2 a 3 yn adran 368E y Ddeddf – deunydd gwaharddedig?
>
> **Cwestiwn 3:** A oes gennych unrhyw sylwadau ar arweiniad arfaethedig ynghylch is-adrannau 4 - 7 yn adran 368E y Ddeddf – diogelu pobl dan 18 oed (deunydd dan gyfyngiadau arbennig)?
>
> **Cwestiwn 4:** A oes gennych unrhyw sylwadau ar unrhyw ran arall o'r arweiniad arfaethedig nad ydynt wedi'u nodi'n benodol yng nghwestiynau 1-3?
>
> **Cwestiwn 5:** A oes gennych unrhyw sylwadau ar yr asesiad o effaith yn Atodiad 1, ac unrhyw un o'r costau posib sydd i'w hysgwyddo (gan gynnwys unrhyw rai nad ydym wedi'u nodi)?

3.3 Mae'r datganiad hwn wedi'i strwythuro ar yr un trywydd â'r cwestiynau hyn, gan gymryd pob un o'r materion perthnasol a godwyd gan ymatebwyr yn eu tro a nodi ein hymateb.

## Deunydd Niweidiol: Deunydd sy'n debygol o annog trais neu gasineb

3.4 Yn Adran Tri yr arweiniad drafft, bu i ni amlinellu, yn unol ag adran 368E(1) y Ddeddf, bod yn rhaid i ODPS beidio â chynnwys deunydd sy'n debygol o annog trais neu gasineb yn erbyn person neu grŵp o bersonau yn seiliedig ar unrhyw un o'r seiliau y cyfeirir atynt yn Erthygl 21 Siarter Hawliau Sylfaenol yr Undeb Ewropeaidd.

3.5 Rhestrodd yr arweiniad drafft y seiliau a nodir yn Erthygl 21 ac esboniodd ymhellach y bydd deunydd sy'n debygol o annog trais neu gasineb yn amrywio gan ddibynnu ar natur y nodwedd warchodedig, yr ystrydebau sy'n bodoli a'r cyd-destun cymdeithasol.

### Yr hyn a ddywedwyd gan ymatebwyr

3.6 Ystyriodd S4C y dylid rhoi "grŵp o bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig" ym mharagraff 3.3 o'r arweiniad drafft yn lle'r cyfeiriad at "grŵp gwarchodedig”.

3.7 Holodd S4C hefyd a allai arweiniad ychwanegol ar ystyr "tebygol o annog" fod ar gael ar yr un telerau neu delerau tebyg â'r rhai a nodir yn Adran 3 y Cod Darlledu. Mae Rheol 3.1 y

Cod Darlledu'n nodi bod yn rhaid peidio â chynnwys deunydd sy'n debygol o annog neu annog cyflawni trosedd neu arwain at anhrefn mewn gwasanaethau teledu neu radio neu ODPS y BBC". Mae'r arweiniad i'r rheol hon yn egluro y bydd y tebygolrwydd o gynnwys sy'n annog troseddu'n dibynnu ar natur y deunydd yn ogystal â'i gyd-destun ac y bydd Ofcom, wrth benderfynu ar y cyd-destun, yn rhoi sylw i ffactorau megis diben golygyddol y rhaglen, statws unrhyw un sy'n ymddangos yn y deunydd, ac a ddarperir digon o her.

### Ymateb Ofcom

3.8 Mae paragraff 3.3 yr arweiniad wedi cael ei ddiwygio ac nid yw bellach yn cynnwys cyfeiriad at "grŵp gwarchodedig".

3.9 Er gwaethaf y geiriad tebyg, mae Ofcom o'r farn na fyddai'n fuddiol ac o bosib yn gamarweiniol i gydymdoddi gofynion y Cod Darlledu â gofynion y Gyfundrefn ODPS. Er bod ODPS wedi'u gwahardd rhag dangos deunydd sy'n "debygol o annog trais neu gasineb yn erbyn grŵp o bersonau" sy'n rhannu nodwedd warchodedig benodol, defnyddir yr ymadrodd "tebygol o annog" yn Rheol 3.1 y Cod Darlledu yng nghyd-destun cyflawni trosedd neu anhrefn. Mae'r Cod Darlledu yn ymdrin â lleferydd casineb yn Rheol 3.2, sydd wedi'i fframio fel gwaharddiad absoliwt ac eithrio lle y gellir ei gyfiawnhau yn ôl cyd-destun. O ystyried y gwahaniaethau rhwng y ddwy gyfundrefn, y ffaith bod llawer o ddarparwyr ODPS yn anghyfarwydd â'r Cod Darlledu a'r angen am eglurder yn y maes hwn, rydym wedi penderfynu peidio â dangos cyffelybiaeth benodol rhyngddynt yn yr arweiniad.

### Pwyntiau eraill a godwyd

3.10 Mynegodd un ymatebydd bryder ynghylch y defnydd o ddilyniannu yn ddamweiniol neu'n fwriadol mewn dyfeisiau modern fel ffordd o hypnosis neu greu salwch meddwl.

### Ymateb Ofcom

3.11 Nid yw Ofcom o'r farn bod y cyflwyniad hwn yn berthnasol i'r ymgynghoriad presennol.

## Deunydd Niweidiol: Deunydd gwaharddedig

3.12 Mae paragraffau 4.1 i 4.16 yr arweiniad drafft yn ymwneud â'r categorïau o ddeunydd gwaharddedig a restrir yn adrannau 368E(2) a (3) y Ddeddf y mae'n rhaid peidio â'u cynnwys mewn ODPS. Y rhain yw: deunydd y byddai'n drosedd i'w gyhoeddi, dosbarthu neu ledaenu o dan gyfreithiau sy'n ymwneud â therfysgaeth, deunydd cam-drin plant yn rhywiol ("CSAM"), a hiliaeth ac senoffobia; gwaith fideo y gwrthodwyd dosbarthiad iddo gan y BBFC; a deunydd y byddai dosbarthiad yn cael ei wrthod iddo gan y BBFC pe bai'n cael ei gynnwys mewn gwaith fideo.

3.13 Rhoddodd yr arweiniad drafft eglurhad pellach ar gwmpas y telerau hyn. Roedd paragraffau 4.5 a 4.6 yn ymwneud â'r rheolau sy'n mynd i'r afael â therfysgaeth, gan esbonio bod annog terfysgaeth yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn drosedd, hyd yn oed os nad oes gweithred terfysgol wedi'i chyflawni. Roedd paragraffau 4.7 a 4.8 yn canolbwyntio ar y diffiniad o CSAM gan egluro bod hyn yn cynnwys dangos person yr ymddengys ei fod yn blentyn yn ogystal â gweithgarwch a efelychir, a pharagraffau 4.9 i 4.11 ddeunydd a ddisgrifir a allai fod yn ffurfiau ac yn fynegiadau o hiliaeth a senoffobia.

3.14 Roedd paragraffau 4.12 i 4.16 yn ymwneud â deunydd y gwrthodwyd dosbarthiad iddo gan y BBFC neu y mae'n debygol y byddai dosbarthiad gan y BBFC yn cael ei wrthod iddo. Esboniodd yr arweiniad drafft fod y deunydd hwn yn cynnwys delweddau disymud a chynnwys nad yw'n cynnwys fideo ac er nad oes gofyniad i ddeunydd ar ODPS gael ei raddio gan y BBFC, bydd Ofcom yn rhoi sylw i ganllawiau'r BBFC wrth benderfynu a yw'r cynnwys yn torri'r ddarpariaeth hon. Er enghraifft, roedd yr arweiniad drafft yn cynnwys rhestr nad yw'n hollgynhwysfawr o'r mathau o ddeunydd a **allai fod** yn ddeunydd gwaharddedig.

### Yr hyn a ddywedwyd gan ymatebwyr - Cyffredinol

3.15 Dywedodd S4C y dylai'r cyfeiriadau at ddeddfwriaeth Ewropeaidd yn yr arweiniad drafft gael eu hategu gan gyfeiriadau at y ddeddfwriaeth ddomestig gyfatebol.

3.16 Nododd S4C hefyd y tebygrwydd rhwng darpariaethau s368E(5)(c) y Ddeddf sy'n ymwneud ag amharu ar ddatblygiad corfforol, meddyliol neu foesol personau o dan 18 oed, a Rheol 1.1 y Cod Darlledu, a gofynnodd am eglurhad ar ba mor berthnasol yw Rheolau 1.2 i 1.27 y Cod Darlledu i'r arweiniad.

### Ymateb Ofcom

3.17 Mae Ofcom wedi cynnwys cyfeiriadau at y ddeddfwriaeth Ewropeaidd berthnasol yn yr arweiniad gan fod hyn yn adlewyrchu'r diffiniad o "ddeunydd gwaharddedig" yn adran 368E(3)(za) y Ddeddf. Byddai unrhyw newidiadau i'r diffiniad hwn yn gofyn am ddeddfwriaeth bellach, a fyddai'n fater i Senedd y DU. Yn wahanol i ddarlledu, nid oes gan Ofcom rôl wrth bennu gofynion o ran cynnwys ar gyfer ODPS.

3.18 Fel y nodir ym mharagraff 3.9 uchod, mae Ofcom o'r farn bod cymariaethau â darpariaethau'r Cod Darlledu yn ddryslyd ac o bosib yn gamarweiniol. Mae'r gofynion o ran safonau ar gyfer darlledu yn fwy helaeth na'r rhai o dan y Fframwaith ODPS, gan adlewyrchu natur wahanol y ddau fath o wasanaeth a'r ffordd y cânt eu defnyddio a'u gwylio. Mae'r cysyniad o'r trothwy, er enghraifft, o'r pwys mwyaf i ddiogelu pobl dan 18 oed yn y Cod Darlledu, ond o ddefnydd mwy cyfyngedig wrth reoleiddio gwylio ar-alw.

### Yr hyn a ddywedwyd gan ymatebwyr - Hunanladdiad a hunan-niweidio

3.19 Croesawodd y Samariaid gynnwys hyrwyddo hunanladdiad a hunan-niweidio fel "deunydd dan gyfyngiadau arbennig" a ystyriwyd yn anaddas i'r rhai o dan 18 oed ond dadleuodd nad oedd hyn yn mynd yn ddigon pell i diogelu y rhai sy'n agored i niwed. Dadleuodd y rhanddeiliad hwn fod effaith ymlediad cymdeithasol bosib o ganlyniad i bortreadu hunan-niweidio a hunanladdiad ac roedd o'r farn y dylid dileu'r cynnwys hwn, a thrwy hynny ei drin fel deunydd gwaharddedig, yn hytrach na dan gyfyngiad trwy ddilysu oedran neu ddulliau eraill. Er iddynt gydnabod y gallai delweddau o hunanladdiad a hunan-niweidio fod yn sail i hysbysu ac addysgu, tynnodd y sefydliad sylw serch hynny at beryglon yr 'Effaith Werther', lle gallai delwedd o hunanladdiad fod yn fodel ar gyfer ymddygiad dynwaredol i bobl ifanc, yn enwedig y rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl neu sydd mewn profedigaeth o ganlyniad i rywun ladd eu hunain.

3.20 Cefnogodd y Samariaid ymagwedd y BBFC wrth asesu'r risg sy'n gysylltiedig â phob achos unigol i bennu sgôrau oedran a dadleuodd y dylai fod yn ofynnol i ODPS sy'n targedu cynulleidfaoedd y DU lynu wrth reoliadau domestig y DU yn hytrach na gallu trechu'r rhain drwy gydymffurfio â chyfundrefnau rheoleiddio gwannach yn y wlad lle mae eu gweithrediadau wedi'u seilio.

### Ymateb Ofcom

3.21 Mae'r Fframwaith ODPS yn gwahaniaethu rhwng cynnwys na ellir ei gynnwys mewn ODPS a "deunydd dan gyfyngiadau arbennig". O dan adran 368E(4) y Ddeddf, mae'n ofynnol i ddarparwyr ODPS gymryd camau priodol i sicrhau bod unrhyw ddeunydd dan gyfyngiadau arbennig ar gael mewn modd sy'n sicrhau na fydd personau o dan 18 oed fel arfer yn ei weld na'i glywed, ond nid yw'r fath ddeunydd wedi'i wahardd yn llwyr. Er bod Ofcom yn deall y pryderon a godwyd gan y Samariaid, byddai angen deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer unrhyw newid i'r gofynion a osodir o dan y fframwaith ODPS ac mae'n fater i Senedd y DU yn hytrach nag Ofcom.

3.22 Er gwaethaf yr uchod, mae deunydd sy'n ymwneud â hunanladdiad a hunan-niweidio y gwrthodwyd dosbarthiad iddo gan y BBFC neu y mae'n debygol y byddai dosbarthiad yn cael ei wrthod iddo gan y BBFC wedi'i wahardd rhag cael ei gynnwys ar ODPS. Fel y nodir yng nghanllawiau dosbarthu'r BBFC, gallai hyn gynnwys portreadau o ymddygiad o'r fath y gallai plant a phobl ifanc eu copïo. Er mwyn adlewyrchu hyn yn well, mae Ofcom wedi diwygio'r rhestr o fathau o gynnwys y gellir eu hystyried yn 'ddeunydd dan gyfyngiadau arbennig' i gyfeirio at "ddeunydd **sy'n portreadu** anhwylderau bwyta, hunan-niweidio neu hunanladdiad". Rydym hefyd wedi cynnwys troednodyn newydd yn nodi y gallai deunydd sy'n hyrwyddo'r mathau hyn o ymddygiad fod yn 'ddeunydd gwaharddedig' os gwrthodwyd dosbarthiad iddo gan y BBFC neu y mae'n debygol y byddai dosbarthiad yn cael ei wrthod iddo gan y BBFC.

3.23 Mae Ofcom yn cytuno â'r Samariaid bod y ffordd y mae ymddygiad hunanladdol yn cael ei bortreadu yn y cyfryngau yn codi cwestiynau cymhleth a chynnil. Mae'r arweiniad eisoes yn egluro bod angen i ddarparwyr ystyried yn ofalus natur y deunydd y maent yn ei ddarparu ar y gwasanaeth wrth wneud penderfyniadau ynghylch y ffordd orau o ddiogelu eu gwylwyr, gan gynnwys y rhai dan 18 oed. Wrth wneud penderfyniadau ynghylch achosion posib o dorri rheolau'r ODPS, bydd Ofcom yn adolygu'n ofalus yr holl ffactorau perthnasol gan gynnwys: cryfder y deunydd dan sylw; natur yr ODPS; ei gynulleidfa debygol; a digonolrwydd unrhyw fesurau diogelu oedran perthnasol.

3.24 Mae Ofcom wedi cyhoeddi arweiniad ar pryd ybydd ODPS yn destun rheoleiddio yn y DU. Yn unol ag is-adrannau 368A(1)(e) ac (f) y Ddeddf, bydd ODPS yn dod o dan awdurdodaeth y DU os yw ei brif swyddfa yn y DU a bod penderfyniadau golygyddol am y gwasanaeth yn cael eu gwneud yn y DU. Os na fodlonir y meini prawf hyn, ni fydd gan Ofcom awdurdod i reoleiddio na mandadu cydymffurfiaeth â rheolau ODPS y DU.

## Deunydd Niweidiol: Diogelu pobl dan 18 oed (deunydd dan gyfyngiadau arbennig)

3.25 Roedd paragraffau 5.1 i 5.40 o'r arweiniad drafft yn ymwneud â "deunydd dan gyfyngiadau arbennig" fel y'i diffinnir yn a368(4) y Ddeddf. O fewn y deunydd hwn mae cynnwys sy'n R18 neu gyfwerth â R18 neu a allai amharu ar ddatblygiad corfforol, meddyliol neu foesol pobl dan 18 oed. Pan fydd ar gael mewn ODPS, mae'n ofynnol i ddarparwyr gymryd camau priodol i sicrhau na fydd fel arfer yn cael ei weld na'i glywed gan bobl dan 18 oed.

3.26 Esboniodd yr arweiniad drafft ymagwedd Ofcom at benderfynu a yw unrhyw gynnwys penodol yn debygol o ddod o fewn y diffiniad o "ddeunydd dan gyfyngiadau arbennig", a darparodd rai enghreifftiau o'r math o ddeunydd sy'n debygol o gael ei ddal. Yn ogystal â nodi ymagwedd arfaethedig Ofcom at ba un a yw'r mesurau diogelu y mae darparwr wedi'u cymryd yn briodol ai beidio, cynigiodd yr arweiniad drafft hefyd y dylai darparwyr ddilyn yr egwyddor bod yn rhaid i ddeunydd sydd â'r potensial mwyaf i niweidio fod yn ddarostyngedig i'r mesurau rheoli mynediad llymaf. Yn unol â'r egwyddor hon, nododd yr arweiniad drafft fod Ofcom yn disgwyl i fesurau dilysu oedran cadarn gael eu rhoi ar waith i gyfyngu ar fynediad i ddeunydd pornograffig, er y byddai darparwyr yn rhydd i benderfynu ar fanylion y mesurau hyn.

3.27 Mae'r arweiniad drafft hefyd yn nodi mesurau eraill y gallai ODPS ystyried eu cymryd mewn perthynas â deunydd nad yw'n bornograffig, gan gynnwys: graddau oedran; rhybuddion cynnwys; a nodweddion rheoli i rieni megis diogelwch trwy pin.

### Yr hyn a ddywedwyd gan ymatebwyr – Mesurau diogelu oedran

3.28 Tynnodd y BBC sylw at y ffaith y dylai nodweddion rheoli i rieni gael eu hadeiladu'n ofalus a bod yn gymesur â'r risg o niwed ym mhob achos. Gan bwysleisio'r mesurau diogelu oedran a roddwyd ar waith eisoes ar BBC iPlayer, codwyd pryder y byddai unrhyw ofynion technegol mandadol a phenodol pellach yn anghymesur, yn faich ar adnoddau ac na fyddent yn cynrychioli gwerth am arian i'r rhai sy'n talu ffi'r drwydded.

3.29 ✂

3.30 ✂

3.31 ✂

### Ymateb Ofcom

3.32 Bwriad yr arweiniad nad yw'n rhwymol hwn yw cynorthwyo darparwyr ODPS i gydymffurfio â'r rhwymedigaeth i gymryd camau priodol i sicrhau bod plant dan 18 oed yn cael eu diogelu ac i esbonio ymagwedd debygol Ofcom at sicrhau cydymffurfiaeth. Mae Ofcom o'r farn mai gweithredwyr llwyfan sydd yn y sefyllfa orau i ddeall proffiliau eu defnyddwyr a'r risgiau a gyflwynir gan eu cynnwys ac i lunio barn ar fesurau diogelu addas. Fodd bynnag, dylai darparwyr sicrhau bod prosesau'n gymesur ac yn gadarn, gan roi sylw i'r risg gyfatebol o niwed a natur eu gwasanaeth.

3.33 Nid oes gan Ofcom y nod o orfodi safonau technolegol penodol gan ein bod yn cydnabod y bydd angen teilwra mesurau diogelu i bob gwasanaeth. Fodd bynnag, credwn y dylai

darparwyr ystyried arferion da sy'n ddefnyddiol i ddiogelu gwylwyr ac sy'n gymesur â'r math o ddeunydd ar y gwasanaeth. Rydym wedi diwygio Adran Pump yr arweiniad i adlewyrchu'r egwyddor hon.

3.34 ✂

**Yr hyn a ddywedwyd gan ymatebwyr - Hunanladdiad a hunan-niweidio**

3.35 Dywedodd y Samariaid drachefn eu dadleuon bod effaith ymlediad bosib o ganlyniad i ddelweddau o hunanladdiad, a gwnaethant holi a oedd cyfyngu ar y fath gynnwys drwy reolaethau dilysu oedran yn ymateb digon cadarn i'r niwed posib a achosir gan y deunydd hwn. Gan nodi cyfyngiadau offer dilysu oedran, a bod annog hunanladdiad yn anghyfreithlon, galwodd y Samariaid am i Ofcom gael y pŵer i wahardd cynnwys yn hytrach na chyfyngu ar fynediad.

3.36 Cyfeiriodd y Samariaid ymhellach at Reol 2.5 y Cod Darlledu sy'n caniatáu i ddulliau o hunanladdiad a hunan-niweidio gael eu cynnwys mewn rhaglenni pan fydd cyfiawnhad golygyddol a chyd-destunol. Gan amlygu perygl yr ymagwedd hon, gwnaethant ddadlau y dylai rheoleiddio ar gyfer gwasanaethau ar-alw symud y tu hwnt i ymagwedd ganiataol cyfryngau darlledu a chreu pŵer i ddileu'r fath gynnwys yn gyfan gwbl.

### Ymateb Ofcom

3.37 Fel yr amlinellir ym mharagraff 3.21 uchod, pennir y diffiniad o ddeunydd gwaharddedig gan y ddeddfwriaeth, nid gan Ofcom. Er mwyn rhoi effaith briodol i adran 368(4) y Ddeddf, fodd bynnag, bydd Ofcom yn disgwyl i systemau dilysu oedran gael eu rheoli'n effeithiol i ddiogelu pobl o dan 18 oed. Wrth ystyried a yw mesurau'n briodol, bydd Ofcom yn rhoi ysyriaeth i botensial y deunydd i achosi niwed a graddau'r niwed sy'n debygol o gael ei achosi ac ni fydd yn ystyried bod blychau ticio hunan-ddatgan yn fesur diogelu digonol rhag y deunydd mwyaf niweidiol sydd dan gyfyngiadau arbennig. Bydd digonolrwydd ac effeithiolrwydd systemau dilysu oedran yn cael eu hystyried fesul achos.

## Sylwadau cyffredinol

### Yr hyn a ddywedwyd gan ymatebwyr

3.38 Holodd S4C a fyddai'r arweiniad yn cael ei ôl-weithredu.

3.39 Gofynnodd BT am arweiniad ynghylch cludo llwyfannau cynnwys a grëir gan ddefnyddwyr fel Twitch, gan gwestiynu'n benodol ai'r llwyfan neu'r darparwr porth fyddai'n gyfrifol am roi'r mesurau a'r nodweddion rheoli perthnasol ar waith.

### Ymateb Ofcom

3.40 Bwriad arweiniad Ofcom yw cynorthwyo darparwyr i ddeall eu rhwymedigaethau cyfreithiol ac ymagwedd debygol Ofcom at sicrhau cydymffurfiaeth. Nid yw'r arweiniad yn rhagnodol ac ni ddylid ystyried ei fod yn gosod gofynion ychwanegol y tu hwnt i'r rhai a nodir yn y fframwaith rheoleiddio.

3.41 Bydd angen i weithredwyr gymryd eu cyngor cyfreithiol eu hunain er mwyn pennu atebolrwydd a chyfrifoldebau darparwyr cynnwys a llwyfannau. Dylid darllen yr arweiniad

hwn ar y cyd ag arweiniad cwmpas ODPS, yr arweiniad cwmpas VSP a'r arweiniad mesurau VSP er mwyn pennu'r drefn reoleiddio berthnasol. Fodd bynnag, fel y mae'r arweiniad cwmpas ODPS yn ei egluro, dim ond pan fo gan ddarparwr gyfrifoldeb golygyddol dros y gwasanaeth, a ddiffinnir yn adran 368A(4) fel rheolaeth gyffredinol dros ba raglenni sydd wedi'u cynnwys yn yr ystod o raglenni a gynigir i ddefnyddwyr a thros y modd y trefnir y rhaglenni yn yr ystod honno, y mae rheolau'r ODPS yn gymwys. Os nad oes gan ddarparwr reolaeth gyffredinol dros ddethol rhaglenni bydd y gwasanaeth y tu allan i gwmpas y fframwaith ODPS ac efallai y bydd angen ei hysbysu fel llwyfan rhannu fideos.  Gellir gyrru ymholiadau sy'n ymwneud â rheoleiddio ODPS neu VSP trwy e-bost i vod@ofcom.org.uk neu VSPRegulation@ofcom.org.uk fel y bo'n briodol.

# 4. Mân newidiadau

4.1 Fel rhan o'r broses o gwblhau ein harweiniad ar fesurau i ddiogelu defnyddwyr ODPS rhag cynnwys niweidiol, rydym wedi gwneud diwygiadau i adlewyrchu'r arweiniad ar fesurau sicrwydd oedran a nodir yn ein harweiniad mesurau diogelu VSP a gyhoeddwyd yn ddiweddar ac i dynnu sylw at bwysigrwydd glynu wrth ofynion preifatrwydd a GDPR perthnasol.

4.2 Mae Ofcom wedi mewnosod paragraff 5.28 newydd i egluro bod yn rhaid i ddarparwyr unigol bennu'r mesurau, neu'r cyfuniad o fesurau, sydd i'w rhoi ar waith ar eu gwasanaethau er mwyn diogelu pobl dan 18 oed.

# 5. Asesiad o Effaith

5.1 Mae'r asesiad hwn o effaith yn ystyried effaith bosib yr arweiniad ODPS ynghylch gofynion newydd mewn perthynas â deunydd niweidiol o dan adran 368E y Ddeddf. Nid yw'n ystyried effaith unrhyw ofynion ODPS sy'n bodoli eisoes o dan y fframwaith rheoleiddio, y mae ein harweiniad presennol arnynt heb ei newid. Er enghraifft, o dan reolau ac arweiniad ODPS blaenorol, nododd Ofcom ei dehongliad o'r gofyniad deddfwriaethol, sef y dylai darparwyr deunydd pornograffig ar ODPS fod â systemau dilysu oedran cadarn ar waith er mwyn sicrhau na fydd pobl o dan ddeunaw oed fel arfer yn gweld nac yn clywed y fath ddeunydd.

5.2 Mae'r arweiniad ODPS wedi'u ddylunio i helpu darparwyr ODPS i ddeall y newidiadau i ofynion sy'n ymwneud â deunydd niweidiol o dan adran 368E y Ddeddf a'u cyfrifoldebau o ran y mesurau a allai fod yn briodol at ddibenion sicrhau nad yw deunydd sydd o dan gyfyngiadau arbennig ar gael i bobl dan 18 oed. Mewn rhai mannau, mae'n nodi'r hyn y "dylid gwneud" neu y "dylid ystyried" ar gyfer darparwyr ODPS wrth weithredu mesurau. Nid yw'r rhain yn ofynion rhagnodol ond fe'u bwriedir fel awgrymiadau defnyddiol i helpu i ddeall sut y gellir cyflawni cydymffurfiaeth. Mae'r arweiniad yn rhoi hyblygrwydd i ddarparwyr ODPS o ran sut maent yn diogelu eu defnyddwyr. Mae hyn yn adlewyrchu amrywiaeth y sector a phwysigrwydd arloesi technolegol ac am y rheswm hwn nid ydym wedi fframio ein harweiniad yn fwy rhagnodol.

5.3 Mewn rhai meysydd rydym wedi gosod disgwyliadau penodol ar ddarparwyr ODPS, os ystyriwn ei bod yn annhebygol y gellir diogelu defnyddwyr yn effeithiol heb roi mesur penodol ar waith a'i weithredu'n effeithiol. Mae yna hefyd feysydd lle rydym yn annog ymagweddau penodol er mwyn diogelu defnyddwyr yn effeithiol. Mae'r meysydd hyn fel a ganlyn:

a) **Deunydd pornograffig**: Ar gyfer ODPS sy'n cynnwys deunydd pornograffig, dylai darparwyr ODPS (yn yr un modd ag o dan y rheolau ac arweiniad ODPS blaenorol) weithredu systemau dilysu oedran cadarn yn effeithiol. **Rydym o'r farn bod hyn yn rhan annatod o sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion rheoleiddio.**

b) **Deunydd arall dan gyfyngiadau arbennig**: Pan fydd ODPS yn cynnwys deunydd arall dan gyfyngiadau arbennig, dylai'r darparwr ODPS weithredu mesurau priodol a chymesur i sicrhau nad yw unrhyw ddeunydd a allai amharu ar ddatblygiad corfforol, meddyliol neu foesol pobl dan 18 oed yn cael ei weld neu ei glywed ganddynt fel mater o drefn. Dylai'r darparwr ODPS benderfynu pa fesurau sy'n gymesur ac yn briodol ar eu gwasanaeth, o'i gymharu â'r potensial neu'r niwed. Mae'r arweiniad yn ceisio darparu cymorth ar sut i wneud y penderfyniad hwn ac yn awgrymu mesurau posib, heb fod yn rhagnodol.

5.4 Bydd effaith y gweithgareddau posib hyn ar ODPS yn dibynnu ar ymagweddau presennol darparwyr ODPS yn y meysydd hyn a pha un a ddylent ddiwygio'r rhain ai beidio er mwyn sicrhau eu bod wedi cymryd camau priodol i ddiogelu eu defnyddwyr.

5.5 Credwn fod gweithredu systemau dilysu oedran cadarn yn effeithiol yn gam cymesur ar gyfer pob ODPS sy'n cynnwys deunydd pornograffig o ystyried y niwed posib i bobl o dan

18 oed sy'n hygyrchu'r deunydd. Rydym yn cydnabod bod rhywfaint o botensial i hyn gael effaith fasnachol negyddol ar rai gwasanaethau ODPS ond credwn fod hyn wedi'i gyfiawnhau gan y potensial am niwed i bobl dan 18 oed sy'n hygyrchu deunydd pornograffig.

5.6 O dan y rheolau ar eu newydd wedd, mae'n rhaid yn awr i ddarparwyr ODPS weithredu mesurau priodol a chymesur i sicrhau nad yw unrhyw ddeunydd a allai amharu ar ddatblygiad corfforol, meddyliol neu foesol pobl dan 18 oed yn cael ei weld neu ei glywed ganddynt fel mater o drefn. Yn flaenorol, roedd yn ofynnol i ddarparwyr ODPS weithredu'r fath fesurau dim ond pan oedd yr ODPS yn cynnwys deunydd a allai gael effaith andwyol **ddifrifol** ar bobl dan 18 oed. Er y gallai'r newid hwn fynnu i ddarparwyr ODPS wneud penderfyniadau gwahanol ynghylch sut i ddosbarthu darnau unigol o gynnwys ar eu gwasanaethau, rhagwelwn nad yw'n debygol o gael effaith sylweddol ar eu prosesau presennol ar gyfer asesu a chydymffurfio â chynnwys, yn seiliedig ar yr arweiniad ODPS blaenorol. Mae hefyd yn wir bod llawer o ddarparwyr ODPS eisoes wedi gweithredu'r mathau o fesurau yr ydym wedi'u disgrifio yn yr arweiniad (fel diogelu trwy PIN a nodweddion rheoli i rieni). O ganlyniad, nid ydym yn rhagweld y bydd yr arweiniad yn debygol o gael effaith sylweddol ar y rhan fwyaf o ddarparwyr.